

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

FORE IAU 22^{ain} HYDREF, 2015 am 10.30

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 20 Hydref 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YNG GLYNRHEDYNOG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n amlinellu'r cynigion i gau Ysgol Babanod Glynrhedynog a throsglwyddo'i disgyblion i Ysgol Gynradd Parc y Darren gerllaw, ynghyd â chais i Aelodau gymeradwyo'r broses ymgynghori berthnasol a gofynnol.

Tudalennau 1–22

- 3 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN LLWYN-Y-PIA**
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n amlinellu'r cynigion i gau Ysgol Feithrin Ynyscynon a throsglwyddo'i disgyblion i Ysgol Gynradd Pontrhondda gerllaw, ynghyd â chais i Aelodau gymeradwyo'r broses ymgynghori berthnasol a gofynnol.
Tudalennau 23–.44
- 4 SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU – ADRODDIAD ASESU BLYNYDDOL 2014/15 RHONDDA CYNON TAF**
Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi gwybod o'r Cabinet am adborth Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag asesiad Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014/15.
Tudalennau 45 – 92.
- 5 YSGOL UWCHRADD Y DDRAENEN WEN – TROSGLWYDDO PWLL NOFIO**
Derbyn yr adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi gwybodaeth am ganlyniad y trafodaethau manwl gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen-wen mewn perthynas â throsglwyddo Pwll Nofio'r Ddraenen Wen i'r ysgol.
Tudalennau 93 –96
- 6 BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi casgliadau adolygiad o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, ar gais y Cabinet.
Tudalennau 97 - 108
- 7 MABWYSIADU POLISI CAFFAEL MOESEGOL (FEL SY WEDI'I ARGYMELL GAN Y GWEITHGOR PWYLLGOR CRAFFU AR GONTRACTAU DIM ORIAU)**
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet ynglŷn â chanfyddiadau ac argymhellion Gweithgor Craffu'r Cyngor a gafodd ei ffurfio i ystyried y mater o Gontractau 'Dim Oriau'.
Tudalennau 109- 126

8 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL – UNED DATBLYGU GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL RHANBARTHOL.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio sêl bendith Aelodau i fwrw ymlaen ag Uned Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol rhanbarthol ar draws Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Tudalennau 127- 132

9 CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU – ADOLYGIAD O FEINI PRAWF A THREFNIADAU GWEITHREDU'R GRONFA

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n amlinellu sut mae Cronfa Deddf Eglwys Cymru yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd a'r newidiadau arfaethedig i'r meini prawf a threfniadau gweithredu.

Tudalennau 133- 138

10 RHAGLEN WAITH Y CABINET: TACHWEDD – RHAGFYR 2015 A IONAWR 2016.

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n amlinellu Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer cyfnod o dri mis - Tachwedd, Rhagfyr 2015 a Ionawr 2016.

Tudalennau 139- 145

11 MATERION BRYD

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

